# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **5ed o Fehefin, 2025** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Jess Williams, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Edward Evans (Bryncir), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | Enid Egginton – Eitem 15 (Cynllunio) |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | JT yn cynnig a GE yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Safle Bws Bryncir** - Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymholiad gan breswylydd yn gofyn am ddiweddariad yn dilyn yr ymgynghoriad mis Rhagfyr 2024. Cysylltodd y Clerc gyda Bethany Griffiths o YGC am ddiweddariad. Dywedodd Bethany bod angen ymgynghori gyda'r Mart a hefyd yr Asiantaeth Cefnffyrdd cyn y gellir wneud unrhyw beth. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Stephen Churchman fynd ar ôl y mater yma. MLW yn cynnig a JW yn eilio.<br><br>**Biniau Halen** – Soniodd JT ei fod wedi ymweld a'r safle. Mae'r bin halen presennol wedi ei leoli hanner ffordd i fyny'r allt tuag at Isallt Bach. JT i wneud ymholiadau/ymweliadau pellach . |
| 7. | Mynwentydd: | **Mynwent Ynys Cynhaearn** – Adroddwyd fod y fynwent yn daclus iawn. Soniwyd nad yw Rhosyn John Ystumllyn wedi cael ei drin. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Tref Criccieth i ofyn wrthynt drin y rhosyn gan mai hwy drefnodd i osod y rhosyn ar y bedd. MLW yn cynnig a RJ yn eilio.<br><br>**Mynwent Bethel** – Adroddodd y Clerc bod y gwaith o ail wneud y concrid wedi ei wneud. Mae'r contractwr (Madog Garden Care) rŵan am barhau gyda'r gwaith o osod slabiau i wahaniaethu rhwng yr ardal claddu llwch a chladdu plant. Clerc wedi egluro bod angen cadw'r "topsoil" yn hytrach na'i waredu.<br><br>Adroddod y Clerc ei bod wedi edrych ar gynllun o'r fynwent ac nad oedd dim arno ond cynllun beddi.<br><br>Soniwyd bod angen cysylltu gyda'r torrwr beddi i ofyn wrthynt sicrhau bod y "subsoil" yn cael ei roi yn ôl yn y bedd gyntaf ac wedyn "topsoil". Un neu ddau o feddi diweddar gyda pridd llawn cerrig ar y top. Clerc i weithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **<u>Mynwent Llanfihangel y Pennant</u>** – Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda pherchnogion Ty'n Llan, Cwm Pennant i drafod y wal ac i roi briff at ei gilydd o beth sydd angen ei atgyweirio. Clerc wedyn i ofyn am brisiau gan gontractwyr. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | **<u>Llwybr Prenteg</u> –** Derbyniwyd prisiau gan dri cwmni trin coed lleol. GE yn cynnig mynd gyda chwmni Gwasanaethau Coed GBA ac JJ yn eilio. Ar yr amcan bris mae'n sôn am goeden Gerddinen/Griafol yn hytrach na Derw. GE i wirio beth yw'r goeden sydd wedi disgyn i wneud yn siŵr fod y goeden gywir yn cael ei thrin.<br><br>**<u>Llwybr Rhif 5</u>** - Adroddodd y Clerc fod y llwybr yma wedi derbyn toriad ac ei bod wedi cysylltu gyda'r Uned Lwybrau i ofyn am gyfarfod safle. Clerc i sôn wrth yr Uned Lwybrau bod yna rwystrau ar y llwybr a bod yna geffyl yn pori'r tir.<br><br>**<u>Llwybr 110</u> –** Soniwyd bod y llwybr yma angen ei dorri. Nid Cyngor Cymuned Dolbenmaen sydd yn gyfrifol am y llwybr yma. Clerc i adrodd i'r Uned Llwybrau.<br><br>**<u>Llwybr Bryncir i Llystyn Ganol</u> –** Adroddwyd fod coedyn y bont mewn cyflwr gwael. Clerc i adrodd i'r Uned Llwybrau. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **<u>Bryncir</u>** – Dim i'w adrodd<br><br>**<u>Prenteg</u>** - Mae arwydd Pont y Traeth ar archeb gan Gyngor Gwynedd.<br><br>Rhannwyd ymateb Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd gyda'r cynghorwyr. GE yn cynnig gwahodd Gerwyn Jones i gyfarfod safle ar Bont y Traeth ar noson y cyfarfod misol nesaf ym mis Gorffennaf ac eu bod wedyn yn dod yn eu blaenau i'r cyfarfod misol.<br><br>Soniwyd bod angen lleihau'r cyfyngiad cyflymder o 60mya i 40mya o Prenteg hyd at Barc Gwyliau Aberdunant; o gyfeiriad Tremadog o Tan y Fron i Brenteg a hefyd ar ochr Garreg i Bont y Traeth.<br><br>Mae cwyn wedi'i dderbyn gan breswylydd oedrannus yn dweud fod ymwelwyr i Barc Gwyliau Aberdunant yn curo drws ei thŷ bob awr o'r dydd am fod y teclynnau llywio lloeren yn eu hanfon yno.<br><br>Y gobaith yw gallu trafod y materion uchod i gyd yn y cyfarfod safle gyda Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd.<br><br>**<u>Penmorfa</u>** – Dim i'w adrodd<br><br>**<u>Garndolbenmaen</u>** – Adroddwyd fod sefyllfa'r ysgol yn un dyrys ar y funud. Soniwyd fod y Pennaeth wedi derbyn swydd newydd ac mai dim ond 17 disgybl sydd yn yr ysgol.<br><br>Gofynnwyd pwy sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r diffibriliwr sydd yn yr ysgol – soniwyd bod yr ysgol wedi gorfod archebu a |

| | | |
|---|---|---|
| | | thalu £300 yn ddiweddar am fatri newydd yn ddiweddar. Clerc i wneud ymholiadau pellach.<br><br>**<u>Pentrefelin</u>** - Dywedodd HP ei fod wedi derbyn cwyn am lanast sydd wedi ei adael tu allan i eiddo ym Mhentrefelin. Cynghorwyd HP i adrodd y mater i Gyngor Gwynedd drwy ffonio 01766 771 000 neu i gysylltu a Chyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>**<u>Golan</u>** – Adroddwyd fod coed ar allt Cefn Coch angen eu torri. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.<br><br>Adroddwyd fod y garreg wybodaeth a osodwyd ger y llyn yng Nghwmystradllyn pan wnaethpwyd y llyn yn gronfa ddŵr angen sylw a bod peryg i'r garreg a'r wybodaeth gael ei golli. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Dŵr Cymru i ofyn a allent roi sylw i'r garreg. Awgrymwyd ein bod hefyd yn cysylltu a LleChi gan fod Cwmstradllyn yn rhan o ardal Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.<br><br>Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gydag Adran Gynllunio y Parc Cenedlaethol i holi am gopi o amodau roddwyd ar gais cynllunio Dŵr Cymru i symud y gwaith dŵr o Gwmsytradllyn I Ddolbenmaen.<br><br>Yn dilyn llawer o ymweliadau diweddar i Ysbyty Gwynedd, soniodd MLW fod yna brinder cadeiriau drwy'r Ysbyty i ymwelwyr a chleifion. Y gred yw bod llawer o'r cadeiriau wedi cael eu gwaredu yn ystod y pandemig. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Siân Gwenllian AS, Mabon ap Gwynfor AS, Llais a PALS. |
| 10. | Cae Chwarae Penmorfa | Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan y contractwr presennol yn dweud ei fod yn dymuno rhoi gorau i gytundeb Cae Chwarae Penmorfa.<br><br>Derbyniwyd prisiau gan ddau gontractwr. Cynigwyd ein bod yn rhoi cytundeb blwyddyn i Madog Garden Care ac ein bod yn mynd allan i dendr blwyddyn nesaf. GE yn cynnig, pawb yn gytûn. |
| 11. | Cyfrifon 2024-2025 | Adroddodd y clerc fod y cyfrifon yn ôl gan yr Archwilydd Mewnol. Dim i'w adrodd. Arwyddwyd y ffurflen flynyddol. |
| 12. | Cronfa Gwynedd Ni | Adroddwyd fod yna £6,500 wedi ei glustnodi ar gyfer Cymuned Dolbenmaen. Awgrymwyd fod pawb yn meddwl beth allwn geisio amdano ac eu bod yn cael eu trafod ymhellach yng nghyfarfod misol Gorffennaf. |
| 13. | Gohebiaeth | a. Rhybudd Cau Ffordd A497 ym Mhentrefelin, Carreg Felen hyd at gyffordd gyda Ffordd Penamser, Porthmadog. Archwiliad Pont – 07/07/25 – cysylltu i wneud sylwadau parthed y gwiriadau.<br>b. Tîm Tacluso Ardal Ni – Torri Gwai 2-6 o Fehefin, 2025<br>**c.** Steffan Williams – Clybiau Ieuenctid. Clerc i ymateb yn rhoi sylwadau fod yna glybiau ffermwyr ifanc yn yr ardal ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | awgrymu y dylent gyfrannu yn ariannol tuag at y clybiau yma. |
| 14. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd (2026-2041) – Cytundeb Cyflawni Drafft. Rhannwyd. Pawb i ymateb dros eu hunain.<br>b. Cronfa Cymunedau Eryri – awgrymwyd ein bod yn gwneud cais a cheisio cael cymorth tuag at sefydlu cysylltiad i'r we yn y neuaddau pentref.<br>c. OPUSUS – Diweddariad Mehefin. Rhannwyd. |
| 15. | Cynllunio | **Rhestrau:** 5/5, 12/5, 19/6, 26/5<br><br>**CAS – 04177 – C8HID9 – Apêl**<br>The Old Cow Sheds, Pentrefelin, LL52 0RB<br>Newid defnydd uned wyliau'r Cow Shed i dŷ annedd / prif gartref (C3) a chadw defnydd Little Barn yn uned wyliau (C6) – cefnogi penderfyniad Cyngor Gwynedd<br><br>**NP2/16/60B**<br>Haulfryn, Garndolbenmaen, LL51 9TZ<br>Trosi garej sy'n ynghlwm yn le byw gan ychwanegu to brig a dymchwel y sied bresennol ac adeiladu sied gardd / storfa newydd. Dim gwrthwynebiad.<br><br>**NP2/16/71A**<br>Glan yr Afon, Garndolbenmaen, LL51 9UX<br>Ystafell haul newydd, dymchwel garej ynghlwm a chodi estyniad deulawr gyda balconi. Dim gwrthwynebiad. |
| 16. | Materion Ariannol | Ceisiadau am arian: Neb<br><br>Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant<br><br>Biliau i'w talu:<br><br>Cyflog Clerc £331.73<br>Ffôn £15.00<br>Cyfrifiadur £20.00<br>HMRC £82.80<br>Veolia £45.34<br>HSBC £8.00<br><br>Derbyniadau: Dim<br><br>Balansau Cyfrifon:<br>Cadw – £38,537.55<br>Cyfredol- £2,715.77 |
| 17. | Gohebiaeth i'r wasg / wefan | - Carreg Cwmystradllyn<br>- Prinder cadeiriau Ysbyty Gwynedd<br>- Llongyfarch pawb o'r ardal yn yr Urdd |